



Site Stakeholder Group  
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE  
TRAWSFYNYDD A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDAU A CHYNEFINO  
AR DDYDD IAU 1 Hydref 2015 am 2:00 PM**

**Yn bresennol**

Y Cyngh. Keith O'Brien	Cynghorydd / Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Y Cyngh. Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd
Dr Sara Johnston	Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
Deborah Ward	Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
Idwal Williams	Traws-Newid
Richard Cowell	Magnox
Dr Iolo ap Gwynn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Martin Moore	Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd
Rory Trappe	Magnox TU Rep Prospect
John Idris Jones	Magnox
Michelle Humphreys	Magnox
Nia Swann Bowden	Cyngor Gwynedd Ardal Menter Eryri
Y Cyngh. John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Karin White	Ysgrifenyddiaeth GRhS
Y Cyngh. D. Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog

(Gwynfor Owen)  
(Glyn E. Roberts)

(Cymen – Cyfieithu)  
(Cymen – Clerc Cofnodion)

**Ymddiheuriadau**

Liz Saville Roberts	AS
Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
David Powell	Cyfoeth Naturiol Cymru
Karen Fell	Magnox
Kevin Titley	Magnox
Andy McAteer	Magnox Maentwrog
Laura Baker	Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
Dylan Williams	Cyngor Gwynedd
Gwen Pettifor	Sefydliad y Merched
Kelly Anderson	Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
Y Cyngh. Tom Ellis	Cyngor Gwynedd

Amgaeadau yn y pecyn gwybodaeth:-

1. Agenda
2. Adroddiad yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear 'Mewnwelediad i ddadgomisiynu niwclear'
3. Adroddiad Cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox 2015/16 Cyfnod 6
4. Copïau o'r sleidiau a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad PowerPoint gan Dr Sara Johnson - Strategaeth Ddrafft yr NDA

**1. Croeso**

Bu i'r Cadeirydd groesawu pawb ac estyn croeso arbennig i Dr Sara Johnston a'i chydweithwraig Deborah Ward o'r NDA.

Gan gyfeirio at yr Agenda nododd y byddai sesiwn holi ac ateb agored yn dilyn cyflwyniad Dr Johnston ar 3edd Strategaeth yr NDA ac adroddiad Michelle Humphreys ar y Cynllun Datblygu Economaidd Gymdeithasol.

## 2. **Cyflwyniad gan Dr Sara Johnston**

Cyflwynodd Dr Johnston ei hun fel Pennaeth Datblygu Strategol NDA ac y byddai ei chyflwyniad yn drosolwg o'r strategaeth ddrafft ac yn eglurhad o'r broses ymgynghori. Mae'r Strategaeth Ddrafft yn nodi'r daith gyfan, ond mae cyllido yn rheoli'r amserlenni. Bu i Dr Johnston groesawu cwestiynau wrth iddi fynd yn ei blaen.

### 2.1 **Datblygu Strategaeth**

Gan gyfeirio at y datganiad diwethaf ym mis Ebrill 2011, roedd yr NDA yn ôl yn y cylch adolygu bob 5 mlynedd o diweddarau ac ymgynghori ar Strategaeth. Byddai'r strategaeth ddiweddaraf yn gosod cyd-destun taith a blaenoriaethau cenhadaeth yr NDA, yn egluro ble'r ydym arni o ran y datblygiad 'wrth i ni fynd yn ein blaenau', ac yn cael ei defnyddio i hysbysu ein gofynion fydd yn cael eu datblygu yn gynlluniau safle gan ein SLC h.y. beth mae hyn yn ei olygu i bob safle. Rydym yn mynd trwy gyfnod o ymgysylltu cyn cyhoeddi strategaeth h.y. ymgysylltu â'r GRhS ac yn gofyn am ei adborth er mwyn ei ymgorffori yn y strategaeth. Mae'r targedau gweithredu penodol yn cael eu nodi yng Nghynllun Busnes yr NDA fydd yn destun ymgynghoriad cyn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2016.

#### 2.1.1 **Cwestiwn - Rory Trappe**

A yw'r drafft ar gael ar y Rhyngwyd?  
**Dr Johnston** Ydyw, drwy ddolen

#### 2.1.2 **Cwestiwn – John Richards**

O ystyried goblygiadau Adolygiad o Wariant y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2015, a fydd yr NDA yn dilyn yr un broses ag o'r blaen?

**Dr Johnston**

Bydd y broses yn debyg i'r un flaenorol, ond nid yw'r NDA yn 'adran warchoddedig'. Rydym wedi bod yn cynnal deialog ers tua 12 mis ac mae honno'n parhau.

### 2.2 **Dadgomisiynu ac Adfer y Safle**

**Amcan**

***Dadgomisiynu ac adfer ein safleoedd dynodedig, a'u rhyddhau ar gyfer defnydd arall***

Cyfeiriodd Dr Johnston at y 4 Thema Ganolog - Dadgomisiynu, Rheoli Ansawdd Tir, Cyflwr y Safle Dros Dro a'r Cyflwr Terfynol, a Defnydd Tir.

Mae'r rheolyddion Rheoleiddio Cyfrannol a'r dyhead am ymagwedd debyg tuag at reolaeth ar y safle yn allweddol ac yn berthnasol iawn i Drawsfynydd - mae yna lawer i'w darfod ynglŷn â hynny.

Mae angen deall y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar wariant, e.e. nid yw'n ymwneud â pherygl yn unig. Yn y Ddogfen ceir nifer o gwestiynau mewn perthynas â deall fforddiadwyedd y cyflwr terfynol yn y tymor agos yn erbyn cyfaddawd cost yn yr hirdymor.

### 2.3 **Gweddillion Tanwydd**

**Amcan**

***Sicrhau rheoli cylch oes gweddillion tanwydd yn ddiogel a chost effeithiol***

Ddim yn berthnasol i Drawsfynydd nawr.

Yn ystod y 5 mlynedd nesaf rydym yn disgwyl y bydd safleoedd ailbrosesu

THORP a Magnox yn cwblhau'r gwaith prosesu. Mae cwblhau'r rhaglenni ailbroseu yn cynrychioli carreg filltir bwysig yng nghanhadaeth hirdymor yr NDA. O'r 50 tunnell o danwydd Magnox, dim ond 2 dunnell sydd bellach ar ôl. Bydd cynlluniau wrth gefn ac opsiynau yn cael eu datblygu pe nai bai ein cyfleusterau ailbroseu yn gallu cyflawni eu hymrwymadau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth, rheolyddion a rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniadau strategol terfynol yn y dyfodol.

## **2.4 Deunyddiau Niwclear**

### ***Amcan***

#### ***Sicrhau rheoli cylch oes ei deunyddiau niwclear yn ddiogel a chost effeithiol***

Mae deunydd niwclear yn cael ei gadw mewn nifer o safleoedd yn y DU. Rydym wedi penderfynu y bydd yr holl stoc arwyddocaol o blwtoniwm sifil yn cael ei storio yn Sellafield ac rydym yn storio ychydig o ddeunydd wranig yn Capenhurst. Blaenoriaeth llywodraeth y DU yw darparu ateb fydd yn sicrhau y bydd y rhan helaeth o'r plwtoniwm a ddelir gan y DU yn cael ei gadw yn ddigon pell. Yn 2011, cynigiodd y llywodraeth y dylid ceisio aildefnyddio plwtoniwm gwahanedig sifil y DU fel tanwydd Ocsid Cymysg, ac rydym yn parhau i roi cymorth i'r llywodraeth o ran datblygu opsiynau strategol ar gyfer gweithredu'r polisi hwn.

Parthed deunydd wranig, buasem yn ceisio ei werthu ble bo defnydd iddo.

## **2.5 Rheoli Gwastraff Integredig**

### ***Amcan***

#### ***Sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n amddiffyn pobl a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol, ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio â pholisiau'r llywodraeth ac sy'n darparu gwerth am arian***

Mae rheoli gwastraff yn effeithiol yn un o ofynion hanfodol cyflawni ein cenhadaeth ac mae'n rhan arwyddocaol o'r rhaglen. Cwestiwn yr NDA yw 'A ydych yn credu mai dyma'r ymagwedd gywir?

### **2.5.1 Cwestiwn – Y Cyng. John Richards**

Ai wraniwm wedi'i ddisbyddu yw'r rhan fwyaf o'r gwastraff?

#### **Dr Johnston**

Wraniwm wedi'i ddisbyddu ydyw ar y cyfan.

### **2.5.2 Cwestiwn - Rory Trappe**

Sawl tunnell ohono sydd yno?

#### **Dr Johnston**

Ni allaf ddweud, ond mae'n gymharol fychan.

### **2.5.3 Cwestiwn - Rory Trappe**

O oes yna unrhyw ddefnydd posibl i'r gwastraff?

#### **Dr Johnston**

Oes, mae yna botensial ar gyfer ei aildefnyddio.

### **2.5.4 Cwestiwn – Y Cyng. John Richards**

Beth mae'r NDA yn mynd i'w wneud yn Urenco?

#### **Dr Johnston**

Am adeiladu storfa safle a'r NDA yn cael siâr tua 50/50

### **2.5.5 Cwestiwn – Idwal Williams**

Pa mor hyderus ydych chi ynglŷn â gwastraff tanwydd Wylfa?

**Dr Johnston**

Mae'r gwaith yn cael ei wneud yn Sellafield ac nid oes yna broblemau ynglŷn â thanwydd Wylfa.

## 2.6 Galluogydd Critigol

Bydd y pynciau hyn yn helpu i gyflawni cenhadaeth NDA.

### 2.6 A Iechyd, Diogelwch, Camau Diogelu, Yr Amgylchedd ac Ansawdd

**Amcan**

***Lleihau risgiau a pheryglon cynhenid y waddol niwclear, drwy gymhwyso safonau cyfoes yn gymesurol a gwella'r amgylchedd, iechyd a pherfformiad diogelwch ar draws ystâd yr NDA.***

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn wedi bod yn arwyddocaol bwysig a bydd yn parhau felly a bydd yn cael ei ystyried fel gwelliant parhaus. Er ei fod yn cael ei nodi fel 'blaenoriaeth', mae angen i'r NDA ei wreiddio fel 'gwerth' yn ei broses benderfynu.

### 2.6 B Ymchwil a Datblygu

**Amcan**

***Sicrhau bod cyflawni cenhadaeth yr NDA yn cael ei danategu gan Ymchwil a Datblygu digonol a phriodol.***

### 2.6 C Pobl

**Amcan**

***Sicrhau bod yr NDA, ei is-gwmnïau a'r ystâd yn gallu denu a chadw'r sgiliau angenrheidiol, yr amrywiaeth o dalent a'r gallu i gyflawni cenhadaeth yr NDA yn effeithiol ac effeithlon drwy arwain Strategaeth y Bobl ar hyd a lled yr ystâd.***

Bydd yna ffocws cryfach ar gydweithio ar draws Ystâd yr NDA drwy 3 maes cyflawni allweddol, ac fel rhan o waith 'ymgysylltu' yr NDA buasem yn gofyn a yw'r rhain yn briodol.

1. Adnoddau

Sicrhau bod y bobl iawn yn y man iawn ar yr adeg iawn am y pris a'r ansawdd gorau

2. Sgiliau

Cadw, cynnal a datblygu gweithlu cymwys a medrus ar hyd a lled yr ystâd mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian

3. Hyblygrwydd a symudedd y gweithwyr

Galluogi symudedd pobl a'r gallu i'w trosglwyddo ar draws ac oddi mewn i'r SLC a'r diwydiant niwclear ehangach.

### 2.6 D Rheoli Asedau

**Amcan**

***Sicrhau perfformiad dibynadwy sy'n rhoi gwerth am arian drwy wneud y defnydd gorau o asedau yn y DU, a thrwy hynny, gallu darparu cyflwr terfynol y safleoedd.***

Mae'r maes gwaith hwn wedi aeddfedu'n arwyddocaol ar ôl edrych ar gyfleoedd i hysbysu strategaethau a phenderfyniadau ynglŷn â rheoli asedau a'u rhannu.

#### 2.6D.1 Cwestiwn - Rory Trappe

A yw'r NDA wedi ystyried rheolaeth gan drydydd parti?

**Dr Johnston**

Mae hynny'n aneglur ar hyn o bryd. Rydym wedi edrych ar opsiynau am gyfnod o 10 mlynedd ac yn parhau i edrych ar rai eraill.

**2.6D.2 Cwestiwn – Y Cyng. John Richards**

A ydych yn ystyried bod Maentwrog yn ased?

**Dr Johnston**

Ydym

**2.6D.3 Cadeirydd**

Byddai'n fuddiol petai'r NDA yn gallu gweithio'n agos gyda'r Cynghorau Cymuned lleol ar reoli asedau.

**Dr Johnston**

Byddwn yn nodi'r sylwad yna. Rydym yn gobeithio cysylltu'r Cynllun Economaidd Gymdeithasol gyda'r strategaeth.

**2.6D.4 Cwestiwn - Y Cyng. Meredydd Williams**

Sut fyddwn yn cael gwybod am ddyfodol Maentwrog? Rydym wedi edrych ar Reoli Ymddiriedolaeth. Nid yw'r gymuned wedi cael llawer o fudd o Faentwrog. Dylai'r NDA fod yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned megis cyflogaeth.

**Dr Johnston**

Byddwn yn nodi'r sylwad yna hefyd.

**2.6 E Contractio**

***Amcan***

***Sicrhau bod yr NDA yn caffael y galluoedd gorau y gall y farchnad eu cynnig, drwy gontractau sy'n cynrychioli gwerth am arian, yn arbennig mewn perthynas â throsglwyddo risg yn briodol. Byddwn yn rheoli'r contractau hyn yn effeithiol ac yn defnyddio cymelliadau contractiol, rhai cadarnhaol a negyddol, er mwyn creu'r canlyniadau gorau.***

Mewn rhai ffyrdd, ychydig iawn o newid fydd yn digwydd, ond rydym yn symud oddi wrth y dull 'unffurf'. Yn y broses ymgysylltu buasai'r NDA yn gofyn 'Ai dyma'r ymagwedd gywir?'

**2.6 F Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi**

***Amcan***

***Sicrhau bod y gadwyn gyflenwi sydd ar gael i ystâd yr NDA yn cael ei hoptimeiddio er mwyn galluogi marchnad ddiogel, fforddiadwy, cost effeithiol, arloesol a deinamig er mwyn cefnogi ein cenhadaeth, a fel mai ystâd yr NDA fydd yn cael ei hystyried fel y cleient niwclear i'w ddewis.***

Rydym wedi gwneud llawer o waith ar hyn oherwydd bod y pwnc yn denu llawer o ddiddordeb.

**2.6F.1 Cwestiwn – Y Cyng. John Richards**

A fydd hyn yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi lleol?

**Dr Johnston**

Mewn rhai safleoedd bydd yn cynyddu'r cyflenwadau lleol.

**Mr Martin Moore**

Ar y cyfan mae Trawsfynydd yn defnyddio cyflenwyr lleol, ond mae'n ymwybodol o'r farchnad rydd.

**2.6F.2 Y Cyng. Gareth Thomas**

A ydych yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd mewn perthynas â chyflenwyr? -

cysylltwch â hwy os gwelwch yn dda, oherwydd byddai meithrin arfer dda yn fanteisiol.

**Dr Johnston**

Byddwn yn gwneud hynny.

## **2.6 G Rheoli Gwybodaeth**

**Amcan**

***Sicrhau'r gwerth gorau o asedau gwybodaeth yr NDA mewn modd ddiogel a chydymffurfiol, gan fuddsoddi yn yr hyn sydd angen ei gadw yn unig er mwyn cyflawni cenhadaeth yr NDA.***

Mae'r NDA yn datblygu'r maes hwn. Mae'n edrych ar y wybodaeth a ddelir ac yn ystyried beth sydd angen ei gadw ac am faint o amser etc. Nid yw'r NDA eisiau cadw'r holl wybodaeth wrth gwrs a bydd yn dethol beth fydd ei angen arno.

## **2.6 H Economeg Cymdeithasol**

**Amcan**

***Cefnogi cynnal economïau lleol cynaliadwy ar gyfer cymunedau sy'n byw ger ein safleoedd a, phan fo'n bosibl, cyfrannu tuag at amcanion twf economaidd rhanbarthol.***

Bydd cymorth ariannol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i argaeledd arian, gyda mwy o ffocws ar wella'r gadwyn gyflenwi leol, cadw sgiliau a phontio, prentisiaethau a gwell proses o weithio a rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau lleol.

Bydd enghreifftiau o arferion gorau yn cael eu rhannu ar hyd a lled yr ystâd.

## **2.6 I Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid**

**Amcan**

***Creu gwell dealltwriaeth o'n cenhadaeth ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid a chynnal eu cefnogaeth, eu hyder a'u hymddiriedaeth.***

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb yn yr hyn a wnawn a byddwn yn archwilio sut yr ydym yn cyflawni'r ymgysylltu hwnnw yng ngoleuni'r amgylchedd cyfnewidiol yr ydym yn gweithio ynddo.

Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu'n lleol pan fo safleoedd yng nghyfnod Gofalu a Chynnal ac yn ystyried ffyrdd eraill o gyrraedd y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o hyn.

Yn ystod y broses ymgynghori, buasai'r NDA yn gofyn 'Beth yw'r ffordd orau o barhau â'r ymgysylltu hwnnw'?

## **2.6 J Trafnidiaeth a Logisteg**

**Amcan**

***Sicrhau cludo deunyddiau yn ddiogel er mwyn galluogi cyflawni cenhadaeth yr NDA.***

### **2.6J.1 Cwestiwn – Y Cyng. Meredydd Williams**

A fydd yr NDA yn cau y rheilffordd o Drawsfynydd?

**Dr Johnston**

Bydd angen i'r NDA ystyried a fydd angen iddo gynnal rheilffordd nad oes neb yn ei defnyddio

### **2.6J.2 Cwestiwn - Rory Trappe**

Os byddwn yn cadw ein rheilffordd, bydd yn ased, ond byddai ei cholli yn golygu bod y safle yn colli gwerth

## **Dr Johnston**

Rheolaeth gyfyngedig yn unig sydd gan yr NDA o fewn seilwaith y rhwydwaith rheilffyrdd

### **2.6J.3 Cwestiwn - Y Cyngh. Meredydd Williams**

A oes dyddiad wedi ei bennu ar gyfer penderfynu ar hyn? - dylai'r NDA gyhoeddi beth mae'n mynd i'w wneud â'r rheilffordd hon cyn gynted â phosibl.

#### **Dr Johnston**

Nodwyd y sylwad.

### **2.6 K Optimeiddio Refeniw**

#### ***Amcan***

***Creu amgylchedd ble gellir sicrhau refeniw presennol, ac y gellir datblygu cyfleoedd yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r llywodraeth.***

Yr egwyddor mewn perthynas â'r strategaeth hon o hyd yw cau cyfleusterau a glanhau'r safleoedd. Mae syniadau ehangach ynglŷn â gweithgareddau masnachol ychwanegol yn parhau i fod y tu hwnt i'n cwmpas heb ganiatâd penodol gan y llywodraeth.

### **2.6 L Cysylltiadau Rhyngwladol**

#### ***Amcan***

***Sicrhau bod ystâd yr NDA yn gwneud y mwyaf o brofiad rhyngwladol o ran cyflawni ei ofynion o dan y Ddeddf Ynni ar gyfer mabwysiadu arferion da, sicrhau gwerth am arian a chefnogi polisi'r llywodraeth, drwy gydweithio wedi ei dargedu â sefydliadau rhyngwladol.***

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu i ni gytuno â chyrff y llywodraeth mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth. Bydd hyn yn debyg i'r hyn sydd wedi bod yn digwydd, ond mae yna fwy o bethau i'w datblygu a bydd hynny'n digwydd yn barhaus. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ddeall a dylanwadu ar ganllawiau technegol rhyngwladol a datblygiadau deddfwriaethol a chefnogi polisi perthnasol y Llywodraeth er mwyn ei chynorthwyo i gyflawni ei hymrwymiaidau rhyngwladol.

### **2.6 M Rheoli Tir ac Eiddo**

#### ***Amcan***

***Rheoli ein tir a'n heiddo er mwyn cefnogi cenhadaeth yr NDA ac er mwyn sicrhau y bydd ar gael ar gyfer defnydd gwahanol fydd yn optimeiddio refeniw a lles economaidd gymdeithasol.***

Mae gan rai safleoedd trwyddedig ôl troed mawr. Bydd yr NDA yn cydweithio â'r sector cyhoeddus er mwyn cael gwared â ffiniau yn Ystâd y Llywodraeth e.e. rhannu gofod ag awdurdodau lleol.

Byddwn yn cynnal adolygiad ychwanegol o'r holl safleoedd niwclear er mwyn ystyried defnydd dros dro a chyflwr terfynol, cydsynio â pholisïau cynllunio lleol a'r galw posibl o'r sector preifat neu'n sector cymunedol. Byddwn yn parhau i leihau perchnogaeth tir, dad-ddynodi gweithfaoedd niwclear pan fo hynny'n bosibl a chael gwared â thir dros ben - cynllunio i godi £220m ychwanegol e.e. Coleg Stroud Canolfan Berkeley.

Ar y dudalen Defnydd Tir ceir adran ar gyfer pob safle.

### **2.7 Y camau nesaf**

Bydd y drafft diweddaraf yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan er mwyn dangos ein syniadau diweddaraf. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ac arsylwadau erbyn diwedd Tachwedd 2015 ac ni fydd unrhyw adborth o'r GRhS yn rhan o'r broses

ymgyngori ffurfiol. Rydym yn bwriadu symud y cam Ymgynghori fel ei fod yn cychwyn yn gynnar yn 2016. Bydd ffocws penodol ar p'un a ydym yn gofyn y cwestiynau cywir. Gohiriwyd y Digwyddiad i Randdeiliaid Cenedlaethol - bydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach, yng nghanol Ionawr 2016 mae'n debyg.

**2.8** Daeth cyflwyniad Dr Johnston i ben am 3:15

**3. Cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox**

Eglurodd Michelle Humphreys bod yn Cynllun yn gweithio mewn cydweithrediad â'r NDA gan ymgysylltu â'r GRhS a'r gadwyn gyflenwi. Rydym yn barod i gychwyn ar y broses ymgynghori a buasem yn croesawu mewnbyn ym mis Ionawr 2016. Bydd y Cynllun yn wahanol yn yr ystyr y bydd yn ystyried yr elfen ehangach e.e. y gadwyn gyflenwi, cyflogaion, cyfleoedd pob safle, a dyrannu cyllid yn ôl safle a rhanbarth.

Gan gyfeirio at y daflen oedd yn manylu ar y cyllid a ddyfarnwyd i grwpiau lleol etc. cyfeiriodd at y festiau a'r siacedi llachar a roddwyd i Grŵp Meithrin Trawsfynydd, a'r diffibriliwr a'r offer cit argyfwng a roddwyd i Ymatebwyr Cyntaf Cymuned Y Bala fel enghreifftiau.

**4. Fforwm Agored Holi ac Ateb**

**4.1 Y Cyngh. John Richards**

Beth fydd yn digwydd i'r tir saethu yn Nhrawsfynydd, oherwydd nid ydym eisiau ei golli? - pryd fyddwn yn cael gwybod?

**Dr Johnston**

Bydd yr NDA yn ddetholus mewn perthynas â thir, ac nid ydym yn gwybod beth yw'r amgylchiadau lleol.

**4.2 Y Cyngh. Gareth Thomas**

A yw'r Ardal Fenter yn effeithio ar eich strategaeth?

**Dr Johnston**

Ym mha ffordd?

**Y Cyngh. Gareth Thomas**

Dylai strategaeth yr NDA gwmpasu cynlluniau Llywodraeth Cymru etc.

**4.3 Y Cyngh. John Richards**

Y dyddiad a gynigir nawr ar gyfer newid i Ofalu a Chynnal yw 2020 - pa mor realistig yw'r dyddiad hwnnw?

**Mr Martin Moore**

Mae'r dyddiadau yn cyfateb yn gyffredinol i ble'r ydym arni nawr.

**4.4 Y Cyngh. Meredydd Williams**

Mae nifer o gynghorwyr wedi rhoi'r gorau i fynychu cyfarfodydd GRhS oherwydd eu bod yn teimlo nad yw atebion yr NDA yn ddigon tryloyw. Nid yw'r NDA wedi cadw at y dyddiadau a roddwyd ganddo, ac nid yw Cyngor Gwynedd wedi bod o gymorth chwaith

**4.5 Y Cyngh. John Richards**

Parthed datgymalu'r adweithyddion, beth yw'r amserlen?

**Dr Iolo ap Gwynn**

Mae p'un a fydd y gwaith ar yr Adweithyddion yn cael ei gynnal nawr neu ymhen nifer o flynyddoedd yn parhau i fod yn bryder.

**Y Cyngh. Meredydd Williams**



Mae'r gymuned yn wirioneddol angen ateb ynglŷn â'r mater hwn.

**4.6 Idwal Williams**

Parthed 'symudedd staff a defnydd tir ar gyfer y dyfodol', beth yw'r gobeithion cyllido o fewn y polisi niwclear ehangach er mwyn diogelu'r safle ar gyfer y dyfodol?

**Dr Johnston**

Bydd y sylwadau a fynegwyd yn 4.4, 4.5 a 4.6 yn cael eu nodi.

**4.7** Bu i'r Cadeirydd bwysleisio pwysigrwydd manteisio ar y broses ymgynghori er mwyn mynegi safbwyntiau a sylwadau lleol, ac anogodd bawb i gyfrannu.

**5. Cadarnhau amser a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

7 Rhagfyr 2015 am 11:00am

**6. Diwedd glo**

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Johnston unwaith eto gan obeithio ei gweld yn amlach. Diolchodd i bawb am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyfraniadau i'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:35